

Newid hinsawdd yn fwy o fygythiad na chig ceffyl yn y gadwyn fwyd



Llun: Anthony Albright
Creative Commons

YR Athro Gareth Wyn Jones yn egluro pam fod pethau eraill i boeni amdanyn nhw yn y gadwyn fwyd na chig ceffyl ...

ERS dechrau helynt y cig ceffyl, mae'r gadwyn fwyd wedi bod yn y newyddion a'i hyd a'i chymhlethdod yn amlwg yn creu cyfleoedd i dwyllo. O ganlyniad, ryden ni'n poeni am ansawdd ein bwyd - ond yn llawer llai ymwybodol o'r berthynas rhwng y gadwyn fwyd a newid hinsawdd.

Yn rhyfeddol dros y byd i gyd mae tua thraean o'n 'nwyon tŷ gwydr' yn dod o'r gadwyn. Syndod?

Meddylwch am yr holl gludo bwyd a diod, yr ynni i rewi, oeri, prosesu, pacio a choginio a'r cyfan sy'n mynd i godi adeiladau anferth i werthu a phrosesu'r cynnyrch ac i gartrefu'r anifeiliaid, y cynydau a'r peiriannau. Heb sôn am yr amaethu ei hun.

Mae cnwd da hefyd yn dibynnu ar wrtaith naill ai fel 'llwch' neu dail. Mae prosesau cemegol i gynhyrchu amonia a gwrteithiau eraill o nitrogen yn dibynnu'n drwm ar ynni.

Ond nid y defnydd o ynni yw'r unig broblem. Mae chwalu fforestydd yr Amazon a throi hen dir i greu caeau newydd i dyfu bwyd neu borfa hefyd yn rhyddhau CO₂. Rhaid sôn hefyd am nwyon llai cyfarwydd eraill.

Y pwysicaf yw methan, sy'n anffodus yn llawer mwy niweidiol na CO₂, er yn rhan naturiol o drefn natur. Mae ei lefel wedi codi lawn cyn gyflymed â CO₂. Mae anifeiliaid aml-stumog megis defaid, geifr, ceirw a gwartheg yn gollwng methan o'u cegau a'u penolau ar ôl i'r glaswellt weithio yn eu boliau.

RHAID RHOI'R GORAU I WASTRAFFU BWYD

Hefyd mae rhoi tail a deunyddiau organig i dorri i lawr mewn safleoedd gwlyb (e.e. tomen dail neu slyri) neu wasgaru dom ar gae yn cynhyrchu methan. Caiff ei ryddhau hefyd o feysydd reis ac, a'r pegwn gwahanol, o'r twndra yng Nghanada a Siberia.

Y nwy arall o'r gadwyn fwyd yw ocsid nitraidd (nwy chwerthin). Mae yna facteria yn y pridd sy'n troi canran fechan o wrtaith nitrogen (o'r sach neu o dail fel ei gilydd) yn ocsid nitraidd. Er mai ychydig sy'n dianc i'r aer, mae'n nwy tŷ gwydr sydd 300 gwaith mwy effeithiol na CO₂.

Felly, hyd yn oed ar ôl gostyngiad sylweddol mewn CO₂, mae sialens anferth o hyd i fwydo tua 9 billion, sy'n ysu am fyrgers a KFC, am iogwrt a menyn, heb waethygu newid hinsawdd a chreu cylch dinistriol dieflig.

I ddechrau, rhaid i ni yn y gorllewin roi'r gorau i wastraffu tua thraean o'n bwyd a helpu gwledydd tlawd sy'n colli traean o'u bwyd nhw am nad oes ffyrdd i'w storio a'i gadw'n saff.

Dyw bwyd organig ddim yn gostwng lefel y methan a'r ocsid nitraidd am bob pwys o fwyd. Ddylen ni ddim gwneud bwch dihangol o gig coch. Mae ôl troed llaeth, caws, iogwrt lawn mor fawr a, thrwy'r blaned, mae gan 23 biliwn o ieir ôl troed mwy na'r 1.5 biliwn buwch. Ac mae anifeiliaid aml-stumog yn gallu pori tiroedd serth ac anial na fyddai fel arall yn cyfrannu at gynnal dynoliaeth. Mae'r atebion yn sicr o fod yn gymhleth ...

Yn enwedig o feddwl, yn baradocsaidd, bod ôl troed carbon amaeth Cymru yn debyg o fod wedi codi yn sgil haf gwael 2012 - am fod anifeiliaid wedi tyfu'n arafach a mwy o ddwysfwyd wedi'i ddefnyddio.

[Golwg, Chwefror 21, 2013]